# Cyngor Sir

Man Cyfarfod
**Siambr y Cyngor – Neuadd y Sir, Llandrindod**

Dyddiad y Cyfarfod
**Dydd Gwener, 3 Mai 2019**

Amser y Cyfarfod
**10.30 am**


Neuadd Y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG



I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â
**Stephen Boyd**
01597 826374
steve.boyd@powys.gov.uk


29/04/2019

Mae croeso i'r rhai sy'n cymryd rhan ddefnyddio'r Gymraeg. Os hoffech chi siarad Cymraeg yn y cyfarfod, gofynnwn i chi roi gwybod i ni erbyn hanner dydd ddau ddiwrnod cyn y cyfarfod

## AGENDA

| **1.** | **YMDDIHEURIADAU** |
|---|---|

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

| **2.** | **DATGANIADAU O DDIDDORDEB** |
|---|---|

Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan Aelodau yn ymwneud ag eitemau i'w hystyried ar yr agenda.

| **3.** | **DATBLYGU CYFLEUSTER GWASTRAFF AC AILGYLCHU GOGLEDD POWYS** |
|---|---|

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Sir Phyl Davies, Aelod Portffolio ar faterion Priffyrdd, Ailgylchu ac Asedau.
(To Follow)

| **4.** | **ADOLYGU TREFNIADAU ETHOLIADOL AR GYFER SIR POWYS - ADRODDIAD ARGYMHELLION TERFYNOL** |
|---|---|

Ystyried adroddiad gan Gyfreithiwr y Cyngor.
(Tudalennau 1 - 16)

| **5.** | **ARGYMHELLION GAN Y PWYLLGOR GWASANAETHAU** |
|---|---|

| | DEMOCRATAIDD |
|---|---|

5.1. **Adran 27 o'r Cyfansoddiad: Protocol Materion Dinesig a Gweithredol**

Ystyried argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.
(Tudalennau 17 - 24)

5.2. **Cynllun Mentora**

Ystyried argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.
(Tudalennau 25 - 30)

| 6. | PENODI AELOD (LLEYG) ANNIBYNNOL AR Y PWYLLGOR SAFONAU |
|---|---|

Ystyried adroddiad gan Gyfreithiwr y Cyngor.
(Tudalennau 31 - 32)

| 7. | RHYBUDD O GYNNIG |
|---|---|

Mae'r Cyngor hwn yn credu bod hawliau Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol (LGBT +) yn hawliau dynol.

Rydym yn cefnogi'r camau cadarnhaol a wnaed gan lywodraethau olynol tuag at gyflawni cydraddoldeb gwirioneddol i aelodau o'r gymuned LGBT + gan gynnwys:

1. Deddf Troseddau Rhywiol 1967 a oedd wedi dadgriminaleiddio Cyfunrhywiaeth;
2. Diddymu Adran 28 yn 2003;
3. Deddf Partneriaeth Sifil 2004;
4. Cydraddoli oedran cydsynio;
5. Deddf Cydnabod Rhywedd 2004;
6. Deddf Cydraddoldeb 2010; a
7. Deddf Priodasau (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013.

**Mae'r Cyngor hwn yn condemnio:**

1. Y cynnydd mewn troseddau casineb tuag at grwpiau lleiafrifol gan gynnwys y gymuned LGBT +;
2. Penderfyniad Sultan Hassanal Bolkiah o Frunei i gyflwyno'r gosb eithaf a chosbau corfforol llym sy'n golygu y gellir cosbi rhyw rhwng ddau ddyn trwy labyddio i farwolaeth a rhyw rhwng menywod trwy eu curo 40 gwaith gyda ffôn neu 10 mlynedd yn y carchar.

**Mae'r Cyngor hwn yn penderfynu:**

1. Gwneud yn glir ei gefnogaeth i'r gymuned LGBT +, amlygu casineb ar bob ffurf a bod yn gynghreiriad uchel ei lais i'r gymuned LGBT +;

2. Ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor a Chymanwlad yn ei annog i sefyll dros hawliau LGBT + ledled y byd a chefnogi galwadau i atal Brunei o'r Gymanwlad oherwydd ei fod wedi torri Siarter y Gymanwlad mewn perthynas â hawliau dynol; a
3. Sefydlu Rhwydwaith Staff LGBT +.

**Cynigydd:** Cyng. Matthew Dorrance

**Eilydd:** Cyng. Gareth Ratcliffe